YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor y Gwanwyn 2023 – Y Tonnau -Miss James

## Bant â ni i gynl

Pwrpas yr uned ddysgu hon yw rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu i fod yn unigolion iach a hyderus wrth ddysgu am fwydydd amrywiol ac am bwysigrwydd deiet cytbwys. Caiff y dysgwyr cyfleoedd i ddatblygu corff o wybodaeth a geirfa am fwyd. Bydd y plant yn cael cyfleoedd i gymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywydau bob dydd trwy ddysgu am wahanol fathau o ddeiet, am blât iachus ac am yr hyn a olygir wrth '5 y dydd'.

Caiff y dysgwyr cyfleoedd i fod yn chwilfrydig ac i gwestiynu wrth ddefnyddio eu synhwyrau i archwilio bwydydd amrywiol. Gobeithiwn ddatblygu cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n gallu cyfathrebu yn effeithiol wrth fynegi eu syniadau am yr hyn maent yn ei hoffi.

Anelwn at ddatblygu dysgwyr gwybodus sy'n ymwybodol o'u hawliau; enwedig 'yr hawl i fwyd a dŵr da' (erthygl 24). Ymdrechwn i ddatblygu dysgwyr chwilfrydig ac ymholgar, sy'n gofyn cwestiynau'n naturiol er mwyn darganfod mwy.

Ar ddiwedd yr uned ddysgu hyderwn bydd y dysgwyr yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n meddu ar sgiliau a'r wybodaeth i ddechrau rheoli eu bywydau bod dydd. Byddant yn gallu cysylltu â chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn cynllunio a pharatoi picnic iach a chytbwys i bawb fwynhau.




Rwy'n hoffi darllen llyfr y 'Lindysyn Llwgylyd Iawn'.

Daniel.

Sut ydy bwydydd wahanol yn tyfu?

Nova.

Rwy'n hoffi bwyta bananas.

Noah.

Rwy'n hoffi coginio.

Osian

Mae ffrwythau yn dda i ni.

Ioan

Rwy'n gallu torri bwyd heb help!

Mila

Rwy'n hoffi afalau coch.

Harriet

Pam ydy bwyta'n iach yn bwysig?

Georgie

YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

# Tymor y Gwanwyn 2023 – Y Tonnau -Miss James



Syniad mawr y tymor hwn:

## Beth sydd yn y fasged siopa?

Dyma rhai o'n syniadau.

**Y Dyniaethau**

- Ffurfio a mynegi barn am yr hyn rwyf yn ei hoffi a'r hyn nad wyf yn ei hoffi
- Dysgu am fwydydd o wahanol wledydd
- Bod yn chwilfrydig am draddodiadau Cymru wrth ddysgu am Dewi Sant
- Dysgu am draddodiadau Santes Dwynwyn, Dydd Gwyl Dewig a Pasg

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

• Defnyddio ystod o gyfryngau i dynnu lluniau croestoriadau o ffrwythau a llysiau
• Defnyddio llysiau a ffrwythau i greu 'celf dros dro'

**Iechyd a Lles**

- Mynegi a gwneud penderfyniadau yn seiliedig i fy hoff fwydydd
- Dysgu am wahanol fathau o fwydydd a grwpiau bwyd; y plat iachus a phwysigrwydd 5 y dydd
- Dysgu am wahanol deiet, yn cynnwys figaniaeth
- Trwy chwarae, archwilio, darganfod a gofyn cwestiynau
- Dechrau deall am bwysigrwydd hylendid wrth goginio a pharatoi bwyd
- Ymarfer a datblygu fy sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1**

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

•Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
• Creu cornel chwarae rôl 'cafi/bwyty/pitsa' (dysgwyr i bleidleisio)
•Gwrando ar lawer o straeon a barddoniaeth sy'n ymwneud â'r syniad mawr
• Dysgu geirfa, a chaneuon sy'n ymwneud â'r syniad mawr
• Dysgu stori ar gof trwy defnyddio dull Pie Corbett- Y Bachgen Bach Toes
• Gweithgareddau *Tric a Chlic* ac *Iaith ar Daith*
• Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol
• Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol e.e. rhestrau siopa a rysait coginio.

**Mathemateg a Rhifedd**

• Datblygu dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
• Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
• Cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau
• Dosbarthu bwydydd a chasglu data a'i gyflwyno am ei hoff fwyd
• Ymchwilio i fesurau, siâp, arian a phatrwm
• Datrys problemau syml yn ymarferol.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Dysgu am fy synhwyrau gan ganolbwyntio ar arogli, blasu a theimlo
- Danogs chwilfrydedd a chwestiynu sut mae bwydydd yn newid wrth cael ei goginio
- Dysgu am brosesau coginio, ymdoddi, rhewi a chymysgu
- Paratoi amrywiaeth o brydau/fwydydd e.e. kebab ffrwythau, cawl, pice ar y maen.
- Defnyddio ystod o offer yn ddiogel
- Cynllunio a pharatoi picnic i ni ac ein tedi
- Cynnal ymchwiliad wyddonol yn defnyddio tiniau bwyd
- Dylunio gwahoddiad i bicnic tedi gan ddefnyddio meddalwedd cyfarwydd
- Dysgu sut i ychwanegu enw ar darn o waith a dechrau arbed gwaith